# YMGYSYLLTU RHYNGWLADOL GWEINIDOGOL
# Gorffennaf 2025

| YMWELIADAU MEWNOL | |
|---|---|
| **03 Gorffennaf** | **Ymweliad y Tánaiste Gwyddelig â Chymru ar gyfer Fforwm Gweinidogol Iwerddon-Cymru**<br>Teithiodd y Tánaiste i Abertawe ar gyfer pumed Fforwm Gweinidogol blynyddol Iwerddon-Cymru. Roedd y Gweinidog Materion Tramor a Masnach, a'r Gweinidog Amddiffyn yng nghwmni'r Tánaiste. Yn eu trafodaethau, canolbwyntiodd y Prif Weinidog a'r Tánaiste ar eu huchelgeisiau cyffredin ar gyfer y berthynas ddwyochrog rhwng Iwerddon a Chymru, gan ddyfnhau cydweithrediad dros y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt. |
| **04 Gorffennaf** | **Ymweliad â Chymru gan Lysgennad Teyrnas yr Iseldiroedd**<br>Daeth Llysgennad yr Iseldiroedd i Gymru ar ymweliad deuddydd. Ar yr ail ddiwrnod cyfarfu â'r Prif Weinidog i edrych ar y cydweithredu rhwng Cymru a'r Iseldiroedd, yn enwedig mewn perthynas â sectorau economaidd allweddol. |
| **08 Gorffennaf** | **Ymweliad Llysgennad Wsbecistan â Chymru**<br>Cyfarfu Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg â Llysgennad Uzbekistan i drafod addysg yng Nghymru. Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar fodelau addysgu ac arweinyddiaeth. |
| **YMWELIADAU ALLANOL** | |
| **04 Gorffennaf** | **Ymweliad y Prif Weinidog â'r Swistir**<br>Ymwelodd y Prif Weinidog â'r Swistir, gan deithio i Genefa a Lucerne. Yng Ngenefa aeth y Prif Weinidog ar ymweliad â CERN, y Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Ymchwil Niwclear, i weld y safle ac ar gyfer cyfres o drafodaethau. Yna teithiodd y Prif Weinidog i Lucerne ar gyfer gêm agoriadol Cymru ym Mhencampwriaeth Pêl-droed Ewrop Merched UEFA. Roedd hyn yn cynnwys siarad mewn digwyddiad arddangos S4C. |
| **11 Gorffennaf** | **Ymweliad y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol â'r Swistir**<br>Teithiodd y Gweinidog CSSP i St. Gallen, y Swistir, i gefnogi tîm pêl-droed Merched Cymru yn ei gêm grŵp yn erbyn Lloegr. Yn ogystal â gwylio'r gêm, cynhaliodd y Gweinidog gyfarfodydd gyda Bardd Preswyl Cronfa Cymorth i Bartneriaid Ewro 2025, a Rheolwr Tîm Cymru. |